



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb i adroddiad thematig Estyn o Parodrwydd ar gyfer Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol

Teitl yr adroddiad: Parodrwydd ar gyfer Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Manylion yr adroddiad

Cefndir

Mae'r adroddiad Estyn yn ymateb i gais am gyngor gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y graddau mae lleoliadau addysg a gynhelir yn barod i weithredu'r diwygiadau ADY.

Mae'r adroddiad yn archwilio'r graddau y mae ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn paratoi i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf). Mae'n ystyried pa arfer effeithiol sy'n bodoli mewn ysgolion a lleoliadau ar hyn o bryd a fydd yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r diwygiadau ADY.

Dull

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar wybodaeth a gasglwyd o bob arolygiad ysgol a gynhaliwyd o dan y trefniadau arolygu newydd rhwng Ionawr 2018 a Mawrth 2018.

Defnyddiwyd adroddiadau arolygiadau o 2015-2016 hefyd i nodi nodweddion allweddol arfer effeithiol o ran bodloni anghenion plant a phobl ifanc ag AAA. Yn

ychwanegol, cynigiwyd cyfle i 167 o ysgolion cynradd ac uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ar draws y pedwar consortiwm lenwi holiaduron ac ymatebodd 35 ohonynt. Cafwyd 19 ymateb gan ysgolion cynradd, ac wyth ymateb gan ysgolion uwchradd ac UCDau. Defnyddiwyd yr holl wybodaeth i ddarparu arwyddion o barodrwydd ysgolion i drosglwyddo i'r system ADY newydd yn raddol. Defnyddiwyd astudiaethau achos o saith ysgol i ddarparu enghreifftiau o arfer dda.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Canfyddiadau allweddol

Dyma'r prif ganfyddiadau, sydd i'w gweld yn fanylach ar dudalennau 5-6 o'r adroddiad:

1. Rhwng 2015 a 2018, mae gofal, cymorth ac arweiniad wedi bod yn dda neu'n well mewn dros naw o bob deg ysgol gynradd, saith o bob deg ysgol arbennig ac ysgol uwchradd, a thraean o UCDau.
2. Mae gan fwyafrif yr ysgolion ymwybyddiaeth dda o'r newidiadau sydd wedi'u cynllunio o dan y Ddeddf.
3. Mae bron pob cydlynnydd anghenion addysgol arbennig (CydAAA)/cydlynnydd ADY (CydADY) wedi derbyn hyfforddiant a chymorth gan yr awdurdod lleol ar y system ADY newydd sydd ar ddod. Canolbwyntiwyd yn benodol ar gyflwyno arfer sy'n canolbwyntio

ar yr unigolyn.

4. Mae mwyafrif o ysgolion yn cyflwyno arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda staff, disgyblion a rhieni, ac mae wedi cael ei dderbyn yn gadarnhaol gan staff yn gyffredinol.
5. Mae bron pob ysgol yn cydnabod bod safbwyntiau disgyblion yn bwysig a'u bod yn gwrando arnynt. Dywed llawer o ysgolion eu bod yn ennill dealltwriaeth well o anghenion y plentyn pan fyddant yn defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
6. O ganlyniad i arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae ysgolion yn gweithio'n agosach gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r teulu a'r plentyn. I'r ysgolion hynny sydd wedi sefydlu'r broses hon, mae effaith y dull amlasiantaethol hwn ar gyfer y disgybl a'r rhiant yn gadarnhaol.
7. Mae llawer o ysgolion yn ymwybodol o'r Cod ADY drafft a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 ac mae'n cael ei ddefnyddio i gynorthwyo ysgolion i adolygu darpariaeth bresennol a dechrau ffurfio'r defnydd o arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mewn ychydig o achosion, defnyddir y Cod drafft i lywio trafodaethau cynnar ar gyfer rhoi CDUau ar waith, er bod hyn yn y camau cychwynol.
8. Mae angen gwella ychydig o agweddau ar arfer bresennol er mwyn i'r agenda diwygio a thrawsnewid ADY gyflawni'r deilliannau bwriadedig, yn cynnwys asesu ac olrhain cynnydd disgyblion unigol; a rhannau gwybodaeth rhwng asiantaethau.
9. Ledled Cymru, mae gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon o ran AAA yn gyffredinol, ac anghenion penodol y disgyblion y maent yn eu haddysgu, yn amrywiol. Nid yw athrawon yn gwahaniaethu nac yn addasu eu dulliau addysgu'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion ag AAA nac yn defnyddio strategaethau awgrymedig sydd wedi'u cynnwys mewn cyngor neu gynlluniau.
10. Nid oes digon o ysgolion yn blaenoriaethu hyfforddiant ysgol gyfan ar AAA nac yn gwneud digon i ddatblygu dulliau ysgol gyfan cynhwysol a pherchnogaeth o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. Nid ydynt yn gweithio'n ddigon agos ag ysgolion eraill i rannu eu harfer dda neu'u staff a'u hadnoddau arbenigol.
11. Mae ysgolion sydd wedi mabwysiadu dulliau arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi datblygu systemau cyfathrebu da gyda rhieni.

Argymhelliad

Mae'r adroddiad yn gwneud un argymhelliad:

- Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion sicrhau eu bod yn cael eu holl ddeunyddiau arweiniad a hyfforddiant a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gweithredu'r agenda diwygio a thrawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu canfyddiadau adroddiad Estyn. Er bod sawl agwedd gadarnhaol ar arfer gyfredol sy'n rhoi sail gadarn ar gyfer mynd ati i weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) newydd, rydym yn cydnabod bod angen cryfhau rhai agweddau i sicrhau bod y system newydd yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Yn gynnar yn 2018, recriwtiwyd pedwar arweinydd ADY rhanbarthol i weithio gydag awdurdodau lleol i'w cynorthwyo nhw a'u hysgolion i baratoi ar gyfer gweithredu'r system ADY. Fel rhan o'u rôl, bydd yr arweinwyr trawsnewid yn codi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau'r adroddiad gydag awdurdodau lleol ac yn gweithio gyda nhw i sicrhau eu bod mewn sefyllfa gref i weithredu'r diwygiadau o fis Medi 2020.

Bydd cyfran helaeth o'r £20 miliwn o gyllid ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid ADY yn cael ei defnyddio i gynnal gweithgareddau i uwchsgilio'r gweithlu i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn well. Mae gwaith ar droed i ddatblygu dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon i'w cynorthwyo i allu diwallu anghenion eu dysgwyr i gyd. Ochr yn ochr ag arlwy dysgu proffesiynol ar gyfer pob athro, rydym yn datblygu arlwy dysgu proffesiynol penodol ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) a fydd yn cyflawni rôl arwain strategol a nhw fydd y cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor a chyfarwyddyd proffesiynol.

Bydd y Cod ADY, a gyhoeddir at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus ddiwedd yr hydref, yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau rheini sydd â dyletswyddau o dan y Ddeddf, yn cynnwys ysgolion. Er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY yn gyfarwydd â'r Cod a'u cyfrifoldebau, bydd hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar y Cod yn digwydd ddechrau 2020.

Manylion cyhoeddi

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar wefan Estyn ar 9 Hydref 2018.

OGI

ISBN digidol 978-1-78903-606-0
© Hawlfraint y Goron 2018
WG30290

Manylion cyhoeddi

www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig

